Sylwer: Mae mynediad at unrhyw wybodaeth bersonol yn ddarostyngedig i delerau ac amodau Deddf Gwarchod Data, 1998. Gall unrhyw wybodaeth a ryddheir i wrthrychau data fod yn ddarostyngedig i'r eithriadau a nodir yn y Ddeddf honno.
Mae gan unrhyw gleient i'r Gwasanaeth, neu unrhyw un sydd wedi bod yn gleient yn y gorffennol, yr hawl i ofyn am gael gweld eu cofnodion. Mae gennym drefniadau yn eu lle i ddelio â cheisiadau o'r fath.

Bydd yn rhaid i chi wneud cais ffurfiol i weld eich cofnodion cwnsela: gwneir hyn trwy Swyddog Gwarchod Data'r Brifysgol. Bydd yn rhaid i chi ofyn am Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata Personol (Cais Gwrthrych am Wybodaeth)[1]. Gan fod yn rhaid i'r holl geisiadau am fynediad at ddata'r brifysgol fynd trwy'r Swyddog Gwarchod Data, rhaid i chi gytuno i'r Swyddog Gwarchod Data gael gwybod eich bod yn mynychu gwasanaeth cwnsela myfyrwyr. Ond bydd y Swyddog Gwarchod Data'n cadw'r wybodaeth hon yn hollol gyfrinachol. Bydd y swyddog yn gofyn i chi brofi pwy ydych, a chodir ffi weinyddu fach arnoch (tua £10). Bydd y swyddog yn cysylltu â ni unwaith y bydd y cais wedi dod i law.

Mae gan y brifysgol 40 diwrnod i gydymffurfio â chais o'r diwrnod y derbyniwyd y cais ynghyd ag unrhyw ffioedd. Felly bydd y Gwasanaeth Cwnsela'n cysylltu â chi o fewn y cyfnod hwnnw i drefnu amser i chi alw heibio i weld eich cofnodion.

Hoffem i chi gyfarfod aelod o'r staff cwnsela (eich cwnselydd eich hun neu un arall), cael copi o'ch cofnodion, ac ystafell lle gallwch edrych arnynt heb i neb darfu arnoch. Pan fyddwch wedi gorffen gallwch gyfarfod eto gyda'r cwnselydd dynodedig i drafod unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd gennych am y cynnwys. Mae hyn er mwyn sicrhau cyn belled ag y bo'n rhesymol eich bod wedi cael amser i brosesu'r wybodaeth. Bydd y cwnselydd yn sicrhau bod y cofnodion yn ddealladwy (er enghraifft, eglurir unrhyw dalfyriadau a ddefnyddir yn y nodiadau). Ni fydd hyn yn cael effaith ar eich hawliau cyfreithiol mewn unrhyw ffordd.

1

Mae gennych yr hawl i ofyn i unrhyw wallau ffeithiol gael eu cywiro.

[i] G1 Information Sheet.  Bond & Jenkins, 2008. Access to records of counselling and psychotherapy.  The British Association for Counselling and psychotherapy.